

Bwrdd yr Ymddiriedolion

23 Gorffennaf 2021

10.30 – 14.00

SESIWN AGORED: 10.30 – 14.00

Presennol:

Aelodau:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)	Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Gwenllian Lansdown Davies	Peter Florence
Quentin Howard	Elin Royles
Mike Cavanagh	Lydia Rumsey
Janet Wademan	David Hay
Susan Davies	Elaine Treharne

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Staff eraill:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Rhian Evans	Uwch Swyddog Gweithredol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd

Sylwedyddion:

Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Illtud Daniel	Sylwedydd
Sally McInnes	Sylwedydd

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod gan estyn croeso arbennig i Peter Florence oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf fel Ymddiriedolydd. Estynnwyd croeso hefyd i aelodau Grŵp Cyflawni'r Llyfrgell oedd yn bresennol fel sylwedyddion.

Adroddwyd bod y Llywydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon ar 5 Gorffennaf, a chafwyd cyfarfod buddiol dros ben.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Anwen Jones a Carl Williams.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Susan Davies ei bod yn ymgynghorydd gyda Chronfa Treftadaeth Genedlaethol y Loteri yng Nghymru, yn gynrychiolydd ar Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd Cymru, ac yn rhedeg ymgynghoriaeth annibynnol yn y celfyddydau a threftadaeth, sy'n ymwneud â phrosiect mentora tîm o staff iau'r Amgueddfa Genedlaethol.

Datganodd David Hay ei fod yn Gyfarwyddwr Ymddiriedol o Archif Sainsbury.

Datganodd Janet Wademan ei bod yn aelod annibynnol o Gyngor Prifysgol Caerdydd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 7 Mai a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod agored 7 Mai fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd yn amodol ar y cywiriad canlynol: *Archwilio Cymru yn lle Swyddfa Archwilio Cymru* o dan bwynt 2.3.

Penodi is-gadeiryddion i bwyllgorau'r Bwrdd – nododd Clerc y Bwrdd y bydd hyn yn cael sylw yng nghylchoedd gorchwyl diwygiedig y pwyllgorau fydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

1.4.1 Pwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 7 Mai 2021

Cadarnhawyd bod pob gweithred wedi eu cwblhau.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Cynllun Gweithredu Drafft Strategaeth 2021 - 2026

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Drafft gan Owain Roberts. Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, diweddarwyd y cynllun i gynnwys croes gyfeiriadau i Raglen Lywodraethu'r Llywodraeth a mapio yn erbyn argymhellion yr Adolygiad Teilwredig; mae'r Llyfrgell yn aros i dderbyn llythyr cylch gorchwyl Llywodraeth Cymru cyn medru cwblhau drafftio'r cynllun.

Cafwyd canmoliaeth i amrywiaeth ac ystod eang y gwaith sy'n cael ei gynnwys. Serch hynny, heriwyd y ffaith nad oedd y Llyfrgell am ymrwmo i geisio statws IRO (Independent Research Organisation). Ymateb Owain oedd y byddai'n anodd os nad amhosibl i'r Llyfrgell fodloni un o'r criteria, sef sicrhau bod o leiaf 10 aelod o staff yn ymwneud â gwaith ymchwil, ond fe gytunwyd i ymchwilio i amrywiol opsiynau a allai ganiatáu i ni ennill y statws. Bydd Owain yn cyflwyno papur byr ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Mae'n fwriad cyflwyno fersiwn lled derfynol o'r Cynllun i gyfarfod nesaf y Bwrdd a fydd yn adlewyrchu cynnwys y llythyr cylch gorchwyl.

2.2 Adolygiad Teilwredig

Cyflwynwyd y cynllun gweithredu gan y Prif Weithredwr a nododd fod y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad eisoes wedi'i ystyried.

Nodwyd y bydd rhaid ail ymweld ag argymhelliad 3 ynghylch cynllun pensiwn y Llyfrgell cyn hir.

2.3 Lansio Cynllun Strategol 2021 – 2026, Llyfrgell i Gymru a'r Byd

Bydd lansiad rhithiol yn digwydd diwedd fis Medi; bydd hyn yn gyfle i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r lansiad, a chyfle hefyd i ffilmio cyfraniad gan Dawn Bowden, y Dirprwy Weinidog. Mae ffilmio wedi digwydd yn barod sy'n dangos gwaith y Llyfrgell a'r cyfraniad a'r gwahaniaeth gall y Llyfrgell ei wneud i fywydau pobl, fydd yn cael ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

2.4 Archif Ddarlledu Genedlaethol

Croesawyd y newyddion fod NHLF wedi rhoi caniatâd amodol i gychwyn y prosiect a bod cytundeb wedi'i arwyddo gyda S4C. Mae trafodaethau gyda Chanolfan y Mileniwm yn parhau.

2.4.1 Llywodraethiant y Prosiect

Cyflwynwyd y ddogfen yma i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, ble gwnaethpwyd 4 argymhelliad:

1. Bod Bwrdd y Rhaglen yn cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn

2. Bod cofnodion Bwrdd y Rhaglen yn cael eu cyflwyno gydag adroddiad cynnydd ysgrifenedig I Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
3. Bod aelod ychwanegol o Fwrdd yr Ymddiriedolion yn ymuno â Bwrdd y Rhaglen
4. Gyda chytundeb swyddogion NHLF bod y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yn sefyll i lawr fel cadeirydd Bwrdd y Rhaglen a bod cadeirydd newydd, annibynnol yn cael ei benodi yn ei le.

Bydd adroddiad cynnydd y prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a'r Bwrdd o hyn allan ynghyd â chofnodion y Bwrdd Prosiect.

Cytunwyd y dylai'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ystyried enwau ar gyfer y gadair, a dod ac enwebiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

Yn ogystal, trafodwyd y PEP (Project Execution Plan), ac argymhellwyd y dylid trefnu cyfarfod byr i drafod yr eitem yma ar wahân er mwyn i'r Bwrdd gael sicrwydd fod y ddogfen yn gyflawn, ac yna rhoi sêl bendith ar y ddogfen orffenedig.

2.5 Ailstrwythuro Corfforaethol

Adroddwyd bod y grwpiau trawsnewid wedi cwblhau eu gwaith a bod y strwythur newydd mewn lle. Y cam nesaf fydd gosod staff yn y strwythur yn ystod Medi a Hydref. Bydd y strwythur newydd yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi.

2.6 Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywedd

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o gynnydd y Llyfrgell tuag at gyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Bwrdd.

2.7 Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Lles

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar Covid-19 gan iddo effeithio ar fywydau gwaith staff y Llyfrgell ers 17 Mawrth 2020. Cafwyd cadarnhad bod mesurau mewn lle i gefnogi staff sy'n dychwelyd i'r adeilad i weithio, ac mae cyswllt rheolaidd gyda'r staff hynny sy'n byw ar eu pennau eu hunain, i sicrhau eu llesiant. Hefyd, mae'r Llyfrgell yn annog staff i ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r gwasanaeth cwnsela petai angen. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Bwrdd

2.8 Calendar y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2022

Cyflwynwyd y calendar gan Glerc y Bwrdd, sy'n nodi dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gyfer 2022. Cymeradwywyd y calendar.

2.9 Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru

Mae gwaith ar ddrafftio'r fersiwn ddiwygiedig bron a'i gwblhau, a gobeithir medru cyflwyno drafft i'r Bwrdd ym mis Medi.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Roedd adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi'i ddsbarthu i'r aelodau ym mlaen llaw. Amlygwyd y canlynol gan y Prif Weithredwr;

Ail agorwyd orielau'r Llyfrgell, y siop a Chaffi Pen Dinas ar 19 Gorffennaf i ymwelwyr.

Prosiect Dinas Diwylliant UNESCO – Mae Cyngor Tref Aberystwyth yn bwriadu cyflwyno cais i UNESCO ar gyfer enwebu Aberystwyth a Cheredigion i fod yn un o “ddinasoedd” diwylliant UNESCO yn 2023. Mae'r Prif Weithredwr yn rhan o grŵp cychwynol o bartneriaid craidd sy'n ystyried y posibilrwydd o gefnogi cais y Cyngor Tref - y partneriaid eraill yw Prifysgol Aberystwyth, Cyngor Llyfrau Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

UKRI – adroddwyd ar hyn gan fod y Bwrdd wedi ystyried cyflwyno cynnig yn y gorffennol ar y cyd gyda'r Comisiwn Brenhinol, a Phrifysgol Aberystwyth i sefydlu Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy i Gymru. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, yna bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w drafod, a bydd cynlluniau cyllido'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Apêl Heddwch Menywod Cymru 1923 - mae'r Smithsonian yn edrych ar y posibilrwydd o ddychwelyd y gist dderw a'r ddeiseb a arwyddwyd i Gymru yn barhaol trwy ei chyflwyno yn rhodd i'r Llyfrgell Genedlaethol. Gyda chymorth nawdd, byddai hyn yn cynnig posibiliadau newydd ar gyfer nodi canmlwyddiant arwyddo'r ddeiseb, gan gynnwys ei digido a chynnal prosiect torfoli i'w thrawsgrifio.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cafodd y gofrestr ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf; amlygwyd y risgiau canlynol gan David Michael.

R2 Archif Ddarlledu Genedlaethol - bydd sgôr y risg yma'n newid erbyn tro nesaf gan fod caniatâd i gychwyn wedi ei dderbyn

R3 - Cynllun Pensiwn - ychwanegiad wedi ei wneud i'r testun, a'r sgôr wedi cynyddu, gan nad yw prisiad yr asedau yn cadw i fyny gyda rhwymedigaethau. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Llyfrgell oedi'r ymgynghoriad am eleni, bydd angen cynllun mewn lle i symud hyn ymlaen, a phheidio aros tan Ionawr 2022. Mae trafodaethau'n digwydd yn y Pwyllgor Cynllunio Ariannol a bydd papur opsiynau 'n cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Dylid hefyd newid y risg yma o felyn i goch.

R17 – Llesiant staff – risg newydd

Mae'r risg oedd yn ymwneud â Brexit wedi ei dynnu oddi ar y gofrestr; ni ellir ystyried Brexit yn risg bellach, am ei fod wedi digwydd.

TORIAD 0 12.30 – 13.30

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 ISA260 – Archwilio Cymru

Roedd Archwilio Cymru wedi cyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf, a braf medru adrodd bod yr archwilwyr wedi rhoi barn ddiamod ar gyfrifon y Llyfrgell.

Llongyfarchwyd pawb a fu'n ymwneud â'r gwaith o baratoi'r cyfrifon a'r adroddiadau perthynol.

5.1.1 Cyfrifon Blyneddol 2020 – 2021

Amlygwyd rhai pwyntiau o'r Cyfrifon gan Emyr Phillips.

Gwnaeth Covid-19 gael effaith sylweddol ar weithgareddau masnachol y Llyfrgell gan nad oedd mynediad i'r adeilad am gyfnod; effeithiwyd hefyd ar sefyllfa ariannol y Llyfrgell gan y cynllun ffyrlo a thanwariant sylweddol trwy beidio talu costau teithio, swyddi wedi eu rhewi a derbyn £500k o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd y ffigyrau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn well nag a ragwelwyd. Mi effeithiodd Covid-19 ar fuddsoddiadau'r Llyfrgell yn ogystal yn y flwyddyn flaenorol, ond erbyn eleni, mae'r sefyllfa wedi ei hadfer.

Er bod cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn, mae'n llai na'r flwyddyn flaenorol, ond yn para i beri consyrn. Disgwylir prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2022, ac erbyn hynny, bydd angen strategaeth mewn lle i ddelio gyda'r cynnydd yn y rhwymedigaethau.

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn cymynrodd o £1m; mae hyn wedi ei gynnwys yng nghyfrifon eleni, ond oherwydd cyfamod yn yr ewyllys, ni fydd y Llyfrgell yn debygol o dderbyn yr arian tan 2023.

Mae ôl troed carbon y Llyfrgell wedi gostwng yn sylweddol oherwydd bod llai o deithio ac ati, a bydd yr agenda datgarboneiddio yn cael lle amlwg dros y flwyddyn nesaf.

Diolchodd y Trysorydd i David Michael ac Emyr Phillips am reoli'r sialens ynglŷn ag incwm ffyrlo. Roedd Archwilio Cymru yn wreiddiol wedi cwestiynu hawl y Llyfrgell i hawlio hwn, yn enwedig ar gyfer staff nad oedd yn uniongyrchol gyfrifol am gynhyrchu incwm. Roedd Archwilio Cymru yn hollol fodlon bod y driniaeth o arian y cynllun ffyrlo wedi eu cynrcyhioli'n gywir yn y cyfrifon a bod y driniaeth ohonynt yn gyson â sefydliadau cyffelyb yng Nghymru. Gwnaethpwyd y Llyfrgell yn ymwybodol hefyd fod y cynllun ffyrlo yn cael ei weinyddu gan HMRC, ac nid gan Archwilio Cymru.

Cymeradwywyd y Cyfrifon Blyneddol gan y Bwrdd.

5.2 Incwm Masnachol

Cyflwynwyd yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Mehefin. Bydd y 4 cais a dderbyniwyd trwy dendr yn cael eu sgorio, a'r tendr yn cael ei ddyfarnu'r wythnos nesaf.

Gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol ystyried edrych ar bob opsiwn fel rhan o'r cytundeb, gan gynnwys contractio allan, gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, a chynllun prentisiaeth gyda cholegau lleol. Nodwyd hefyd bod angen ystyried ffyrdd o ddefnyddio'r casgliadau i gynhyrchu incwm ac nad oedd hyn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yma.

5.3 Gyllideb Ddiwygiedig Drafft

Ystyriwyd y gyllideb ddrafft gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Mehefin. Adroddwyd bod Emyr Phillips yn gweithio ar ddatblygu'r gyllideb gan obeithio cyflwyno fersiwn derfynol i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. Un o'r prif risgiau sy'n amlygu yw tanwario eleni, ond o bosib, bydd gorwario flwyddyn nesaf oherwydd nifer y swyddi ychwanegol fydd ar gael. Derbyniwyd cynnydd yn GIA eleni i alluogi dyfarniad cyflog wedi ei gyfuno, ond mae angen sicrhau bod hyn yn parhau dros y blyneddodded nesaf.

Cymeradwywyd y gyllideb ddrafft gan y Bwrdd.

5.4 Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC)

Mae'r papur yma yn fersiwn ddiwygiedig o bapur gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn flaenorol, ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa ariannol yn well, ond wrth symud ymlaen, rhaid ffactora cost strwythur arfaethedig yr uwch reolwyr i mewn i'r adroddiad.

Adroddwyd bod problemau'n codi gyda balans arian o 2%, a'i fod yn cael traweffaith ar yr arian wrth gefn yn y cronfeydd cyhoeddus; bydd hyn yn fwy o broblem pan ddaw alinio GIA i

rym flwyddyn nesaf. Awgrymwyd y dylid gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru ddod i esbonio'r aliniad GIA i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er bod yr uned codi arian ddim bellach yn bodoli o fewn y Llyfrgell, mae elfen o'r gwaith yn parhau o ran cymynroddion, ac mae'r gwaith a wnaed flynyddoedd yn ôl yn y maes yma erbyn hyn yn dechrau dwyn ffrwyth, gan fod y Llyfrgell wedi derbyn nifer o gymynroddion, ac mae sawl un arall wedi addo ystyried y Llyfrgell yn ei ewyllys. Bydd ymgyrch pellach ym mis Medi ar gymynroddion, a bydd y Prif Weithredwr yn medru adrodd ar hyn at y dyfodol.

Yn dilyn argymhelliad gan y Trysorydd, cymeradwywyd y SATC.

5.5 Cronfeydd Preifat – nodyn esboniadol

Cyflwynwyd yr adroddiad yma yn dilyn cais gan yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfod blaenorol i gael eglurhad ar gronfeydd preifat y Llyfrgell.

Gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol ystyried adolygu'r cytundeb gyda'r rheolwyr buddsoddi gan nad yw hyn wedi ei wneud ers nifer o flynyddoedd, a chytunwyd y dylai'r Tîm Gweithredol ystyried paratoi manyleb ar gyfer tendro am y gwasanaeth yma i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg 30.04.21

Cafwyd adroddiad llafar yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, ac nid oedd gan y Cadeirydd ddim byd pellach i'w ychwanegu.

6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 30.04.21

Cafwyd adroddiad llafar yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai, ac nid oedd gan y Cadeirydd ddim byd pellach i'w ychwanegu.

6.3 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol 18.6.21

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms.

Yn dilyn cyflwyniad Investec, rheolwyr buddsoddi'r Llyfrgell, i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Mehefin, awgrymwyd y dylid cyfuno'r ddau bortffolio i gael gwell enillion ar y buddsoddiadau. Argymhellwyd hyn gan y Trysorydd, a chafwyd cymeradwyaeth unfrydol y dylid bwrw ymlaen i gyfuno'r ddau bortffolio.

Bydd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn cadw sefyllfa'r cynllun pensiwn o dan ystyriaeth yn rheolaidd, ac yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Cytunodd y Pwyllgor y medrai'r Prif Weithredwr fwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Trawsnewid Digidol, a chafwyd diweddariad gan Illtud Daniel ar y cynllun busnes. Mae'r broses caffael ar gyfer yr elfennau canlynol o'r gwaith yn mynd rhagddi - mudo gwasanaethau TGCh i'r cwmwl, hyfforddiant seiber ddiogelwch a Fedora Commons. Gofynnwyd i Illtud gyflwyno papur cynnydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol sy'n cynnwys y risgiau i amseru'r gwaith a chostau'r gwaith.

6.4 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 29.06.21

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Meri Huws, ond nid oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau.

6.5 Diweddariad Llafar o'r Pwyllgor Archwilio a Risg 09.07.21

Cafwyd diweddariad llafar gan y Cadeirydd, Janet Wademan, a amlygodd y prif bwyntiau a drafodwyd;

-
- argymhellwyd bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol,
- derbyniwyd adroddiad tendrau sengl, ond y tro yma, nid oedd unrhyw dendr i'w adrodd,
- dyfarnwyd tendr gwasanaethau adnoddau dynol i Effectus HR,
- derbyniwyd adroddiad cynhwysfawr a manwl ar ddiogelwch gwybodaeth,
- adolygwyd y gofrestr risg,
- derbyniwyd adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol, a dyfarnwyd sicrwydd rhesymol i'r Llyfrgell,
- derbyniwyd archwiliad Casgliadau Unigryw, oedd eto yn rhoi sicrwydd rhesymol,
- diweddariad ar y gwasanaeth archwilio mewnol,
- arwahanu dyletswyddau ar Sage 200 – mae'r drafodaeth yma'n parhau

Ni fu cyfle i drafod yr adroddiadau ar Gardiau Pwrcasu, Parhad Busnes na'r adroddiad trywydd archwilio mewnol - bydd y ddwy eitem gyntaf yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Hydref, tra bu trafodaeth ar e-bost ynglŷn â'r drydedd eitem.

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2021

Nid oedd dim i'w drafod ynglŷn â'r eitem yma.

8. Unrhyw fater arall

Nododd Lydia Rumsey ei bod wedi ymweld â'r Llyfrgell ym mis Mehefin, ac wedi ei synnu gan faint yr adeilad. Gofynnodd a byddai'n werth ystyried adolygiad gofod i adnabod ardaloedd storio a'r gofod sydd ar gael.

Cafwyd diweddariad gan Mike Cavanagh, Cadeirydd y Panel Adeiladau, a adroddodd ar ei gyfarfod cyntaf yn cadeirio'r panel yma. Yn dilyn sylw Lydia, nododd y byddai'n gosod arolwg gofod ar agenda cyfarfod nesaf y Panel Adeiladau.

Cafwyd sicrwydd bod cynnydd da ar y rhaglen datgarboneiddio, ac unwaith y bydd wedi ei gwblhau, bydd yn arbed 80% o ôl troed carbon, gyda'r 20% sy'n weddill yn dod trwy newidiadau mewn ymddygiad. Cytunwyd y dylid gwahodd Mark i gyfarfod mis Medi i ddiweddarau'r Bwrdd ar y rhaglen datgarboneiddio ac unrhyw ddatblygiadau eraill o fewn yr adeilad.

Trafodwyd hefyd Cynllun Argyfwng y Llyfrgell, Cynllun Bioamrywedd a Chynllun Risg Tan, a bydd y Panel yma'n monitro'r rhain yn rheolaidd.

I orffen, nododd y Llywydd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 17 Medi yn un hybrid, ac y byddai cyfle i'r rhai hynny o'r Ymddiriedolwyr oedd yn dymuno, i fynychu'r cyfarfod yn y Llyfrgell. Mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ganllawiau a/neu gyfyngiadau fydd mewn grym ar y pryd.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****